

1. STATWS PRESENNOL

1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

Rhyngwladol	Cyfarwyddeb Cynefinoedd ^b Cyfarwyddeb Adar ^c Safleoedd Gwlyptir Ramsar ^d Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ^e
DU a Chymru	Deddfwriaeth SoDdGA ^f Blaenoriaeth CGB y DU Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000 ^g Deddf Dŵr 2003 Deddf Draenio Tir 1991 Deddf Adnoddau Dŵr 1991 Dylatswyddau amrywiol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru o safbwynt rheoli dŵr a rheoli llygredd
Gwynedd	CGB Eryri ^h AHNE Llŷn

1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Mae ffeniai Cymru yn hynod bwysig oherwydd eu maint, eu hamrywiaeth a'u hansawdd ac maent yn feicrocosm o'r amrywiaeth eang sydd i'w weld o fewn ffeniai Prydain gyfan¹. Mae oddeutu 6200 ha o gynefin ffen yng Nghymru, gan gynnwys tua 2700 ha o fignedd mewn basnau, dyffrynnoedd a gorlifdir, 2100 ha o lystyfiant llac ar yr iseldir, ac hefyd tua 1400 ha o gorsdir¹ (ffigurau oddi wrth Arolwg Cynefinoedd Iseldir Cymru (1987-1997) a Rhestr Corsleoedd Cymru CFDA (1993, 1995)).

Amcangyfrifir bod tua 460 ha o gorsleoedd yng Nghymru; mae hyn oddeutu 10% o gyfanswm y cynefin hwn trwy'r cyfan o'r DU (sef tua 5,000 ha), ac mae dwysedd y tir hwn mewn rhai ardaloedd CGBL Cymru yn dangos bod ardal orllewinol y DU yn gadarnle pwysig iddo¹. Mae yng Nghymru gyfanswm o 1700 ha o orgorsydd yr iseldir ac mae 1200 ha o hyn yn gorsdir sydd wedi ei addasu; mae hyn yn dangos faint y mae'r cynefin hwn hefyd wedi ei addasu.

Mae corsydd pori a glaswelltir gorlifdir yn gyffredin ym Mhrydain, tua 300,000 ha, i gyd, ond cyfran fechan o hyn sydd yn laswelltir lled-naturiol. Yn rhestr Cyngor Cefn Gwlad Cymru o safleoedd pori ar gorsydd a gorlifdir yng Nghymru¹, mae cyfanswm o 54,600 ha o gynefinoedd tir glas wedi eu cofnodi o fewn lefelau arfordirol a thirluniau gorlifdir yng Nghymru.

1.3 Statws yng Ngwyneddⁱ

Mae Gwynedd yn cynnwys tua 10% o gyfanswm Cymru o dir cynefinoedd blaenoriaeth Ffen y DU; cofnodwyd cyfanswm o 610 ha yma, gan gynnwys 310 ha o ffen categori 1, 200 ha o dir llac a 100 ha of orsdir¹. Yng Ngwynedd mae cyfanswm o 118 safle yn cynnal cynefinoedd ffen wedi eu cofnodi ac

^b Mae Gwlyptiroedd yr iseldir wedi eu cynnwys mewn rhai ACA dan "Cyfarwyddeb Cynefinoedd" - Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC dyddiedig 21 Mai 1992 ynglŷn â gwarchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt yr UE. Daw ffeniai o dan dri chynefin a restrir yn Atodiad I, "Migneddau Trosiannol a Chorsydd ansad", "Ffeniau alcalaid" a "Ffeniau calchog gyda Cladium mariscus a rhywogaethau o'r Caricion davallianae".

^c Mae Gwlyptiroedd yr iseldir (corsleoedd yn arbennig) wedi eu cynnwys o fewn rhai AGAs dan "Cyfarwyddeb Adar" - Cyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC dyddiedig 2 Ebrill 1979 ar gadwraeth adar gwyllt.

^d Yn ymdrin â rhai corsydd yr iseldir, corsleoedd yn benodol.

^e Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2004. Rheolaeth basn afon integredig - Gosodir amcanion amgylcheddol gan gynnwys targedau ecolegol ar gyfer dŵr awrynebol.

^f Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000

^g O dan adran 74 o Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynhyrchu "Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd Pwysig Iawn er mwyn Gwarchod Amrywiaeth Biolegol".

Hawlfraint y Goron 2003.

^h Cynlluniau Gweithredu ar gyfer tir pori corsydd ar yr arfordir a'r gorlifdir ac ar gyfer cyforgorsydd

ⁱ O fewn y ddogfen hon, mae'r term "Gwynedd" yn cyfeirio at ardaloedd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, heblaw lle nodir yn wahanol.

§ Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae CFGA wedi lleihau maint y coetir gwlyb yn Llyn Ystumlllyn er mwyn ymestyn maint yr ardal corsle, a fyddai'n gynefin nythu ardderchog ar gyfer adar fel aderyn y bwn.

4.3 Arolygu, ymchwilio a monitro

Mae CCGC wedi llunio rhestr (gan gynnwys mapiau digidol) ac wedi llunio arolwg cadwraethol o gorsydd yr iseldir yng Nghymru.

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU^j

1. Cynnal a diogelw'r ardaloedd presennol o gorsydd yr iseldir a sicrhau rheolaeth drostynt yn y tymor hir
2. Chwilio am gyfleoedd a'u defnyddio er mwyn gwella neu ail greu systemau corsydd yr iseldir gan gynnwys un math neu ragor o gynefinoedd blaenoriaeth CGB
3. Adfer cynefinoedd ffen mewn ardaloedd addas er mwyn sicrhau cynydd o 2%^k ar gyfanswm yr ardal ffen
4. Adfer ardaloedd corsle presennol mewn ardaloedd addas (y rhai sydd yn destun diddordeb cadwraethol yn barod) sydd yn mesur 2 ha neu ragor, er mwyn sicrhau cynnydd o 30%^l yng nghyfanswm arwynebedd y corsle
5. Adnabod ardaloedd o gorgors tir isel yng Ngwynedd, atal colled a dirywiad pellach, ac ymgymryd â gwaith adfer ar gyfran o'r adnodd y cytunir arni
6. Adfer 2% o gynefin corsydd pori sydd wedi mynd yn rhy sych, sydd wedi ei reoli yn rhy ddwys, neu sydd heb ei reoli'n addas ar gyfer bywyd gwyllt.^m
7. Cyfrannu tuag at gadwraeth tir cyforgors yr iseldir mewn CGBL cyfagos, ledled y DU ac Ewrop
8. Codi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a mwynhâd y cyhoedd o gynefinoedd corsydd yr iseldir

6. CAMAU ARFAETHEDIG

6.	Gweithredu	Partner(iaid) ⁿ
Polisi a Deddfwriaeth		
1	Trwy gyfrwng y broses gynllunio, sicrhau bod datblygiadau mewn lleoliadau sensitif yn gydnaws â chadwraeth corsydd yr iseldir TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, Partneriaid perthnasol
2	Sicrhau bod pob enghraifft o gorsydd yr iseldir sydd yn cwrdd â'r meini prawf perthnasol yn cael eu dynodi yn Safleoedd Bywyd Gwyllt. TARGED/AMSERLEN: Cychwyn y broses o ddynodi erbyn 2007	CG, CCGC, YBGCC
3	Sicrhau bod rheoliadau AEA ar gyfer Tir sydd Heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol yn cael eu gweithredu ar holl ardaloedd corsydd yr iseldir TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	LICC, Partneriaid perthnasol

^j Gan ystyried yr holl gynefinoedd CGBLI, yn enwedig Coetiroedd Gwlyb a Phorfa Rhos

^k Targedu safleoedd sydd yn awr wedi eu meddianu gan llystyfiant nad yw'n gynhenid i gorsydd, megis tir glas wedi ei wella.

^l Gall penderfynu i ba raddau y dylid cynnal neu ail-sefydlu corsle fod yn anodd yn achos safleoedd lle mae llystyfiant - hesg yn bennaf - cyfagos neu wedi ei gynnwys fel rhan o CGB blaenoriaeth arall - gweler Cynefinoedd Blaenoriaeth Cymru am ragor o fanylion.

^m Targedu safleoedd gyda rhywogaethau penodol neu sy'n cynnwys ardaloedd lle mae glaswelltir wedi ei ledwella er mwyn sicrhau ffynhonnell hadau.

ⁿ Dangosir y prif bartner ar gyfer y weithgaredd hon mewn print tywyll, gweler adran 7.2 am eglurhâd o'r byrfoddau.

Rheoli a diogelu rhywogaethau / cynefinoedd		
4	Hyrwyddo a chefnogi cynlluniau grant gan gynnwys Tir Gofal, AAS Llŷn a /neu gytundebau rheoli tir er mwyn sicrhau rheolaeth ffafriol a / neu er mwyn adfer cynefinoedd corsydd yr iseldir gan gymryd i ystyriaeth anghenion y CGBL ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd penodol. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	GCFBG Cymru, CCGC, CTG, LICC, UAC, CG, UCA Cymru, YG, YBGGC, CFGA Cymru
5	Gweithredu'r NGIP er mwyn sicrhau rheolaeth addas a/neu er mwyn adfer a chreu corsydd yr iseldir TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2008	CG, Partneriaid perthnasol.
6	Paratoi a gweithredu Cynlluniau Rheoli Lefelau Dŵr, yn cynnwys rheolaeth addas ar ardaloedd corsydd yr iseldir pwysig ac asesiad gofalus o waith atal llifogydd a draenio yn arferol ac ar gyfer digwyddiadau annisgwyl TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	AAC, Partneriaid perthnasol
7	Sefydlu'r gwaith o adfer ardaloedd blaenoriaeth presennol o gorsle a / neu eu rheoli'n addas TARGED/AMSERLEN: Rheolaeth ffafriol ar 50%, Adfer 12 ha, erbyn 2015	CCGC, CG, YBGGC, LICC, YG, CFDA Cymru
8	Sefydlu'r gwaith o adfer a/ neu reoli'n addas yr holl ardaloedd ffen o fewn safleoedd statudol a ystyrir yn anffafriol ar y funud, ac o leiaf 30% o'r safleoedd anstatudol TARGED/AMSERLEN: Holl ardaloedd adfer 'ffafriol' neu 'anffafriol'. Adfer 10 ha erbyn 2015	CCGC, CG, YBGGC, LICC, YG, CFGA Cymru
9	Sefydlu'r gwaith o adfer a / neu reoli'n addas yr holl ardaloedd yn cynnwys ardaloedd a nodwyd yng nghanam 12 o'r camau gweithredu TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CG, YBGGC, LICC, YG, CFDA Cymru
10	Sefydlu'r gwaith o adfer a / neu reoli'n addas yr ardaloedd blaenoriaeth presennol o gorsydd arfordirol a phorfa gorlifdir. TARGED/AMSERLEN: Rheolaeth ffafriol dros 50%, Adfer 10 ha, erbyn 2015	CCGC, CG, YBGGC, LICC, YG, CFGA Cymru
Cynghori		
11	Darparu cyngor integredig i berchnogion a rheolwyr tir ar ddulliau o reoli corsydd yr iseldir yn addas. TARGED/AMSERLEN: Ar y gweill	CCGC, CTG, LICC, UAC, CG, UCA Cymru, YG, YBGGC
Arolygon, ymchwil a monitro		
12	Cofnodi holl safleoedd corsydd yr iseldir drwy Wynedd trwy gyfrwng rhestr o'r data sydd ar gael (Cam Un, Safleoedd Bywyd Gwyllt ac arolygon eraill) ac arolygon ecolegol addas eraill a thargedu safleoedd allweddol ar gyfer eu rheoli a'u hadfer (cyn safleoedd sydd gerllaw safleoedd presennol neu'n agos atynt ac sydd yn addas ar gyfer eu gwrthdroi) TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2007	CCGC, CG, CEH, GC, YG, YBGGC, CFGA Cymru, PCB
13	Annog arolygon o rywogaethau perthnasol a geir ar gorsydd yr iseldir ac ymchwilio i ofynion rheoli rhywogaethau allweddol TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CEH, CG, YG, YBGGC, CFGA Cymru, PCB
Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd		
14	Codi ymwybyddiaeth o'r defnydd o gorsleoedd ar gyfer nifer o amcanion e.e. mecanweithiau atal llifogydd a thrin dŵr, toi toeau gwellt a gweithgareddau hamdden megis gwyllo adar a gwneud basgedi. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, AAC, CG, YG, YBGGC, CFGA
15	Annog defnyddio deunyddiau heblaw mawn i ddiobenion domestig a masnachol trwy gyhoeddi erthyglau mewn cyhoeddiadau perthnasol a rhoi sgysiau i grwpiau perthnasol. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, CCGC, YG, YBGGC, CFGA
16	Codi ymwybyddiaeth am gorsydd yr iseldir a dulliau cadwraeth perthnasol ymhlith perchnogion a rheolwyr tir trwy gyhoeddi erthyglau mewn cyhoeddiadau perthnasol a rhoi sgysiau i grwoiau perthnasol. (e.e. cyhoeddiadau a chyfarfodydd lleol UCA, UAC, CTG) TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CG, YG, YBGGC, CFGA
17	Codi ymwybyddiaeth am gorsydd yr iseldir a dulliau cadwraeth addas trwy gyfrwng erthyglau yn y cyfryngau, dyddiau agored, dehongliadau a digwyddiadau TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, CCGC, YG, YBGGC, CFGA

7. PARTNERIAID A CHYFLEOEDD

7.1 Prif bartner arweiniol ar gyfer CGC
Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC)

7.2 Partneriaid allweddol
Cymdeithas Tir a Busnes Gwledig (CTG)

Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Cyngor Gwynedd (CG)

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (UCA)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

CYMAD

Grŵp Cyngori Ffermio a Bywyd Gwyllt Cymru (GCFBG Cymru)

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru (YBGGC)

Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar – RSPB Cymru (CFGA)

Prifysgol Cymru Bangor (PCB)

7.3 Cyfleon

Perchnogion tir a thirfeddianwyr

8. DIOLCHI ADAU

Prif Awdurdod: Kate Williamson (CG), Chris Wynne (YBGGC), Dave Elliott (PCB), Aisling Carrick (CG)

Ymgynghorol: Dave Elliot (PCB), Pete Jones (CCGC), Karen Rawlins (CCGC), Chris Wynne (YBGGC)

Llinlluniau: English Nature

9. BYRFODDAU

CGBL: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaethau, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefinoedd, DLLC: Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol, SoDdGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ACA: Ardal Cadwraeth Arbennig, AGA: Ardal Gwarchodaeth Arbennig, GNL: Gwarchodfa Natur Leol, AAS: Ardal Amgylcheddol Arbennig, CTL: Cronfa Treftadaeth y Loteri, AEA: Asesiad Effaith Amgylcheddol, AHNE: Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Fersiwn 1, 2005

¹ Jones, P.S. et al, 2003. Cynefinoedd Blaenoriaeth Cymru: cyfarwyddyd technegol. CCGC.